CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Is-lywydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth (STEMM) - swydd ddisgrifiad

Mae'r Is-lywydd yn un o'r pum Swyddog Anrhydeddus allweddol yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth lywio ein strategaeth, cynllunio gweithgareddau a sicrhau llwyddiant hirdymor yr elusen. Mae'r Is-lywydd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion eraill (y Llywydd, Is-lywydd y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol Gwyddoniaeth, y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol). Ar lefel staff, mae'n derbyn cefnogaeth y Prif Weithredwr, y Clerc, y Pennaeth Cydraddoldeb ac Ymgysylltu, y Swyddog Cymrodoriaeth a'r Swyddog Llywodraethu. Bydd yr Is-lywydd yn aelod o Gyngor (bwrdd ymddiriedolwyr) y Gymdeithas a phwyllgorau allweddol eraill.

Cyfnod y swydd:
Bydd yr Is-lywydd yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd y gymdeithas, gan gychwyn ar ddiwedd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 19 Mai 2027. Mae modd i'r Is-lywydd gael ei ail-ethol am ail dymor o dair blynedd, ond ar ôl hynny ni fydd yn gymwys i gael ei ail-ethol.

Prif gyfrifoldebau:

- Bod yn llysgennad gweledol a gweithredol i STEMM a materion ymchwil cysylltiedig o fewn y Gymrodoriaeth ac yn allanol, gan gefnogi ac ymgysylltu gyda pherthnasoedd a chynghreiriau strategol gyda sefydliadau, cymunedau a chyrff perthnasol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Chwarae rhan flaenllaw yn y broses etholiadol flynyddol i Gymrodyr newydd, yn arbennig ar gyfer enwebeion STEMM ac ICAP, sy'n cynnwys:
  - Cyd-gadeirio'r Pwyllgor Cymrodoriaeth, sy'n goruchwylio pob agwedd o'r broses etholiadol, a hwyluso gwaith y pwyllgorau craffu.
  - Cefnogi penodi a chyflwyno aelodau newydd Pwyllgorau Craffu STEMM ac ICAP.
  - Cysylltu a chwrdd â chadeiryddion ac aelodau annibynnol pwyllgorau craffu i adolygu'r broses graffu a'r enwebiadau STEMM ac ICAP a argymhellir.
  - Rhoi adborth i'r enwebeion STEMM ac ICAP aflwyddiannus ar ôl i'r broses etholiadol gael ei chwblhau.
- Cyflawni dyletswyddau'r Llywydd yn ei absenoldeb ac ymgymryd â dyletswyddau eraill a bennir gan y Llywydd neu'r Cyngor o bryd i'w gilydd. [rheoliad 5.1].
- Mynychu, yn ôl yr angen, Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, Cyfarfodydd Cyffredinol eraill y gellid eu galw, a hefyd, fel sy'n briodol, gyfarfodydd uwch bwyllgorau

a sefydlwyd gan y Cyngor, sy'n cynnwys cyfarfodydd Cyngor (Pedwar cyfarfod 2-awr bob blwyddyn), y Pwyllgor Cymrodoriaeth (Pedwar Cyfarfod 1.5-awr bob blwyddyn), Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu (Dau gyfarfod 1.5 awr bob blwyddyn) a'r Pwyllgor Gwaith (Deg cyfarfod 1-1.5-awr bob blwyddyn).

- Cyfrannau at osod cyfeiriad strategol y Gymdeithas gan sicrhau ei bod yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol yn y byd dysgu a chynnig sylwadau a chyngor awdurdodol, ysgolheigaidd a beirniadol ar y lefel uchaf am faterion polisi sy'n effeithio ar Gymru.
- Bydd yr Is-lywydd yn cyfrannu at bolisïau ac yn gyfrifol am gynnull Cymrodyr (gyda chymorth gan y staff), gyda gwybodaeth arbenigol benodol, er mwyn ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol gan gyrff llywodraethol ac anllywodraethol. Gall hyn olygu cysylltu ag academïau cenedlaethol eraill a sectorau ymchwil y DU ac Ewrop.
- Cychwyn cyfres o ddarlithoedd a symposia mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol, gyda chymeradwyaeth y Cyngor a chymorth gan y staff, er mwyn hyrwyddo ymchwil ac ysgoloriaethau ledled Cymru.
- Cymryd rhan yn rhaglen ddigwyddiadau'r Gymdeithas, gan gynnwys mynychu darlithoedd, seminarau a chyfarfodydd eraill ar sail sy'n ddewisol o reidrwydd, ond yn briodol.
- Cynorthwyo a chefnogi staff y Gymdeithas yn ôl yr angen, e.e. asesu ceisiadau grant, cadeirio gweithdai, ayyb.
- Ymddwyn â'r uniondeb angenrheidiol i gynnal hyder y cyhoedd yn y swydd, y Gymdeithas a bywyd academaidd a deallusol yng Nghymru bob amser.

Aelodaeth Ex-officio:

- Cyngor (Bwrdd Ymddiriedolwyr)
- Y Pwyllgor Gwaith
- Pwyllgor Cymrodoriaeth (Cyd-gadeirydd)
- Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu

Gweler yma am ddisgrifiad o'r pwyllgorau hyn.